# Richard Lloyd Williams 1829–1907

## gan Gwyn Jones

Gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych eleni, efallai mai priodol fyddai edrych ar gyfrol braidd yn anghyffredin ei natur, cyfrol na welir ar y farchnad ail-law yn aml sef *The Village Churches of Denbighshire* gan Lloyd Williams ac Underwood (ailargraffwyd gan Wasanaeth Llyfrgell Clwyd). Roedd yn gyffredin yn Lloegr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a chyn hynny i benseiri gyhoeddi cyfrol o'u cynlluniau fel math o hysbysebiad a hefyd fel ffynhonnell syniadau i ddarpar gwsmeriaid, ac i hyrwyddo eu harddull bensaernïol. Efallai bod hon yn gyfrol mwy unigryw oherwydd ei natur hynafiaethol yn cofnodi gwaith crefftwyr anhysbys y canol oesoedd ac nid gwaith gwreiddiol yr 'awduron' eu hunain. Roedd Lloyd Williams yn sicr wedi sylweddoli gwerth yr adeiladau hyn mewn cyfnod pan mai ond lleiafrif bychan oedd wedi sylweddoli gwerth pensaernïaeth 'frodorol'. Bu i R. Lloyd Williams weithio ar rai o'r eglwysi hyn maes o law, a'r gwaith hwnnw yn llawdrwm ar brydiau.

Cyfrol od yw hon a argraffwyd yn 1872 gan MacLeod, Lerpwl a Manceinion. Mae'n cynnwys cyflwyniad byr a rhwng 58 a 75 o blatiau (gan ddibynnu ar y fersiwn). Mae gan rai copïau wyneb ddalen ac eraill heb yr un. Ymddengys bod tri neu bedwar fersiwn, gyda threfn a rhifo'r platiau yn amrywio, ac mewn rhai copïau (y fersiwn derfynol o bosibl) ceir platiau ychwanegol o gastell Dinbych, Abaty Glyn y Groes a phontydd Holt a Llangollen. Bellach mae'r darluniau ynddynt eu hunain yn ddogfennau hanesyddol oherwydd hoffter oes Fictoria i ail-wneud a 'gwella' eglwysi. Mae'n sicr mai trwy ei grwydradau fel syrfëwr Sir Ddinbych yn archwilio ffyrdd, pontydd ac adeiladau sirol y lluniwyd y darluniau hyn. Yn y gyfrol ceir darluniau a manylion eglwysi Sir Ddinbych yn cynnwys manylion sgriniau, gwaith cerfio, toeau, croesau plwyf a chreiriau eglwysig diddorol.

Mae'n debyg mai R. Ll. W oedd y pensaer cyntaf yn Nyffryn Clwyd i gael ei hyfforddi'n broffesiynol. Fe'i ganed yn Henllan Place, Dinbych (ger safle eglwys y Santes Fair) yn 1829, yn un o bump o blant Dr Richard Lloyd Williams a Mary Heaton. Mab Lewis Lloyd Williams, Hafod Wryd, Penmachno, cyfreithiwr i Syr Watkin Williams Wynne oedd Dr Richard Ll. W. a ddaeth i amlygrwydd yn Nyffryn Clwyd am ei dalent feddygol, ac roedd ymysg y rhai ddaeth â'r geri marwol o dan reolaeth yn Ninbych yn 1832. Roedd yn fân dirfeddiannwr, a thrwy ei briodas â Mary Heaton lluniwyd cyswllt â theulu grymus yn ardal Dinbych fu'n fantais fawr.



Richard Lloyd Williams

Addysgwyd Richard y pensaer yng Ngholeg Cheltenham, a'i hyfforddi gyda Fulljames a Waller, Gloucester, penseiri cyn Ysbyty'r Meddwl, Dinbych. Fel Martin Underwood a hyfforddwyd yn yr un man, bu yntau o dan J. P. St Aubyn, a daethant maes o law yn aelodau o Gymdeithas Frenhinol Penseiri Prydain. Yn dilyn cwblhau ei hyfforddiant, dychwelodd R. Ll. W. i Ddinbych oddeutu 1855 gan weithio o gartref ei rieni.

Tyfodd y busnes, yn arbennig ar ôl ei benodi'n syrfëwr Sir Ddinbych yn 1859, ac mae'n debyg mai dyma pryd y bu iddo wahodd y Sais, Martin Underwood i ymuno ag ef (gŵr na wn ddim amdano). Gothig oedd eu harddull, ond ystyrir Underwood yn well pensaer na R. Ll. W. a thybir mai ef gynlluniodd Neuadd y Dref, Llangollen. Cymerodd Underwood ran hefyd ym 'mrwydr yr arddulliau', dadl yn ymwneud ag arddulliau a defnyddiau adeiladu, a chyfrannodd Williams ac Underwood i'r cylchgronau *Building News* a *The Builder*. Erbyn Ebrill 1873, roedd y bartneriaeth wedi'i chwalu, (clywais ryw si mai gwrywgydiwr oedd Underwood ac mai hyn fu achos y chwalfa) er y bu i Underwood weithio yn Ninbych am rai blynyddoedd wedi hynny gan gynllunio colofn Dr Evan Pierce, Dinbych cyn symud i Lundain a gweithio mewn partneriaeth o dan yr enw Underwood a Denton.

Fel ei dad, daeth R. Ll. W. yn ŵr amlwg ym mywyd Dinbych ac yn fawr ei barch gan wasanaethu fel maer y dref, ond mae'n amlwg bod llawer o densiwn yn y cyngor ac iddo golli ffafr. Bu'n ymwneud am flynyddoedd â gwirfoddolwyr milwrol y dref gan ei benodi ar ei ymddeoliad yn lefftenant gyrnol; cyfnod cenedlaetholgar imperialaidd pan oedd bod yn aelod o'r gwirfoddolwyr, yn enwedig swyddog, yn golygu cryn statws a pharch cymdeithasol.

Adeiladodd R. Ll. W. dŷ o'r enw Bodwilym yn Stryd y Parc, Dinbych yn 1862, ac o'r fan honno bu'n gweithio gweddill ei oes gan gyflogi dau neu fwy drafftsmon. Pensaer lleol ydoedd i bob pwrpas er iddo gynllunio ysgol yn Selatyn ac Ynys Môn. Fe'i comisiynwyd i gynllunio cofeb i Daniel Defoe yn Llundain a Victor Hugo ym Mharis. Eto, prin yw'r wybodaeth sydd wedi goroesi am yr hyn gynlluniwyd gan y practis. Parhaodd R. Ll. W. fel syrfëwr Sir Ddinbych hyd tua 1903, ond ers yr 1890au roedd ei ddisgybl ffyddlon Robert James Hughes yn cymryd rhan amlycach yn y gwaith. Yn dilyn marwolaeth R. Ll. W. yn 1907, parhaodd James Hughes i weithio yn Ninbych cyn ymddeol yn oddeutu 1920 a symud i fyw i Cheltenham lle bu farw oddeutu 1928. Ef gynlluniodd Neuadd yr Eglwys, Dinbych a giât a phorth derw mynwent Eglwys Wen, Dinbych. Addasodd dŷ Bryn Hyfryd er llunio ysgol sir i ferched yn Rhuthun (Ysgol Bryn Hyfryd) ac yn ddiweddarach cynlluniodd ysgol sir i fechgyn yn Ninbych a agorwyd yn 1903.

Adeiladodd R. Ll. W. dair eglwys newydd gan gynnwys eglwys y Santes Fair, Dinbych, yr eglwys y bu cymaint o helynt a dadlau chwyrn ynghylch ei chysegru pan berswadiwyd yr esgob i wrthod ei chysegru oherwydd bod y 'reredos', y cerflun y tu ôl i'r allor, a gynlluniwyd gan R. Ll. W., yn babyddol ei naws. Arweiniodd hyn at ymchwiliad ac achos llys eglwysig gan oedi'r cysegru am dros flwyddyn. Pan y'i comisiynwyd i ailgynllunio Eglwys Dewi Sant, Dinbych fe ofynnwyd i gynllunydd arall ddylunio'r reredos rhag ofn i anghydfod arall godi.

Gothig a Saesnig cynnar oedd eu harddull bensaernïol eglwysig, gyda ffenestri yng nghefn yr adeiladau a drysau yn agor tuag at yr allor, a oedd yn groes i'r traddodiad adeiladu Cymreig. Bu i'r practis gynllunio neuaddau tref Llangollen a Threffynnon a nifer dda o ysgolion, ac yn eu mysg Ysgol Ramadeg Llanelwy (Ysgol Glan Clwyd heddiw), gydag ysgol Trelogan gyda'r gorau. Fel pensaer y sir, R. Ll. W. gynlluniodd garchar dynion Rhuthun a oedd yn seiliedig ar

*parhad ar dudalen 19*